Nodiadau ar gyfer GWEINIDOGION YR EFENGYL

CYNNWYS

Cwblhau'r tudalennau Gweinidogion yr Efengyl MN1

- **Pam cael tudalennau ar wahân ar gyfer gweinidogion?** MN1
- **Sut y caiff gweinidogion eu trethu?** MN1
- **Pa incwm ddylwn i ei gynnwys?** MN1

Incwm fel gweinidog yr efengyl MN1

- ***Incwm*** MN1
  - Cyflog MN2
  - Ffioedd, offrymau, rhoddion a grantiau, costau personol a chostau'r ficerdy neu'r mans a delir ar eich rhan, llety, talebau a chardiau credyd, treuliau wedi'u talgrynnu i'r swm agosaf a lwfansau rhent, lwfansau milltiroedd MN2
  - Incwm arall o'ch swydd neu'ch penodiad MN3
- ***Buddiannau a thaliadau costau a dderbyniwyd*** MN3
  - Buddiannau car a thanwydd, gwasanaethau a buddiannau'r ficerdy neu'r mans, benthyciadau di-log a llog isel MN3
  - Buddiannau a thaliadau treuliau eraill a wnaed i chi MN4
- ***Incwm trethadwy, buddiannau a threuliau a dderbyniwyd*** MN4

Treuliau a dalwyd fel gweinidog yr efengyl MN4

- Rhent, cynnal a chadw, atgyweiriadau ac yswirio'r ficerdy, y mans ac ati, treuliau teithio a lwfansau cyfalaf a llyfrau MN5
- Defnyddiau swyddfa, post a ffôn, gwisgoedd a threuliau gwasanaethau, treuliau ysgrifenyddol, terfyn ar fuddiannau gwasanaeth, treuliau eraill MN6

Incwm arall fel gweinidog yr efengyl MN6

- ***Incwm caplaniaeth*** MN6
- ***Unrhyw incwm arall fel gweinidog*** MN6
- ***Pensiwn clerigwyr*** MN6
- ***Cyfandaliadau a thaliadau iawndal gan gynnwys taliadau o'r fath gan Eglwys y daliasoch swydd neu gyflogaeth ynddi yn flaenorol*** MN6
- ***Enillion tramor a didyniad enillion tramor*** MN7
- ***Treth Dramor*** MN7

Benthyciadau Myfyrwyr MN7

- ***Benthyciadau Myfyrwyr a ad-dalwyd trwy ddidyniad gan y cyflogwr*** MN7

TAFLENNI CYMORTH A THAFLENNI

Mae Taflenni Cymorth a thaflenni sy'n rhoi mwy o wybodaeth fanwl am reolau treth arbennig ar gyfer Gweinidogion yr Efengyl ar gael o'r Llinell Archebu.

- *IR125: Defnyddio eich car eich hun ar gyfer gwaith*
- *IR134: Income Tax and National Insurance contributions on relocation packages*
- *IR136: Income Tax and company vans - a guide for employees and employers*
- *IR201: Vouchers, credit cards and tokens*
- *IR202: Living accommodation*
- *IR203: Car benefits and car fuel benefits*
- *IR204: Lump sums and compensation payments*
- *IR205S: Foreign Earnings Deductions for Seafarers*
- *IR206: Capital allowances for employees and office holders*
- *IR207: Non-taxable payments or benefits for employees*
- *IR211: Employment - residence and domicile issues*
- *IR214: Service benefits connected with job-related living accommodation*
- *Llyfryn 480: Treuliau a Buddiannau - Canllaw Treth*

Cwblhau'r Tudalennau Gweinidogion yr Efengyl

Casglwch ynghyd y deunydd sydd ei angen arnoch, fel:

- eich P60 (neu P14 os gweithredwyd PAYE yn uniongyrchol gennych chi)
- P11D, P9D neu wybodaeth gyfatebol os derbynioch fuddiannau neu daliadau treuliau
- derbynebion ar gyfer gwariant caniataol a wariwyd gennych
- unrhyw Daflenni Cymorth rydych wedi gofyn amdanynt.

Cwblhewch y tudalennau hyn os oeddech:

- yn weinidog yr efengyl yn dal unrhyw swydd neu benodiad tebyg, **neu**
- yn weithiwr ac roedd dyletswyddau eich cyflogaeth yn cynnwys gweithredu'n gyfan gwbl neu'n rhannol fel gweinidog yr efengyl.

Pam cael tudalennau ar wahân ar gyfer gweinidogion?

Mae rhai rheolau treth ond yn gymwys i glerigwyr a gweinidogion yr efengyl. Hefyd gall y mathau o incwm a gewch a'r treuliau a delir gennych fod yn wahanol i drethdalwyr eraill. Bydd y Nodiadau hyn yn eich helpu i ddeall y rheolau arbennig, ac yn rhoi rhywfaint o arweiniad i chi am fathau amrywiol o incwm ac yn dweud wrthych pa dreuliau y gallwch eu didynnu er mwyn pennu eich cyfanswm trethadwy.

Sut y caiff gweinidogion eu trethu?

Mae'r un rheolau treth yn gymwys i weinidogion o bob ffydd, crefydd ac enwad. Mae'r nodiadau hyn yn cwmpasu cyfraith treth mewn termau cyffredinol ac er mwyn byrder yn defnyddio rhai geiriau cyffredin. Er enghraifft mae cyfeiriadau at 'eglwys' yn cynnwys cyfeiriadau at fosg, cysegrle, synagog, teml ac yn y blaen ac unrhyw gorff o bobl sy'n cynrychioli neu'n gweithredu ar eu rhan. Mae 'ficerdy neu mans' yn cynnwys unrhyw adeilad lle rydych yn byw ac yn cyflawni dyletswyddau eich gweinidogaeth ohono.

Os na chwmpesir amgylchiadau arbennig eich gweinidogaeth yn y nodiadau hyn, gofynnwch i'ch Swyddfa Cyllid y Wlad neu'ch cynghorydd treth am arweiniad. Mae'r rhan fwyaf o weinidogion yn ddeiliaid swydd neu'n weithwyr ac yn talu treth ar yr incwm a ddaw o unrhyw swyddi neu gyflogaethau a ddelir ganddynt. Mae'r tudalennau hyn yn darparu ar gyfer yr incwm hwn. Os credwch eich bod yn hunan-gyflogedig gofynnwch i'ch Swyddfa Dreth am y tudalennau Hunan-gyflogaeth.

Pa incwm ddylwn i ei gynnwys?

Dylech gynnwys unrhyw incwm sy'n gysylltiedig â'ch swyddi neu benodiadau fel gweinidog, yn cynnwys pethau fel ffioedd o briodasau ac angladdau, ac incwm caplaniaeth. Rhowch incwm nas cysylltir â'ch gweinidogaeth (neu enillion cyfalaf) rywle arall ar eich Ffurflen Dreth. Gweler eich Canllaw i Ffurflenni Treth am gymorth.

Incwm fel gweinidog yr efengyl

Incwm

Rhowch fanylion cyfanswm llawn eich incwm gros cyn treuliau, hyd yn oed os ydych wedi trosglwyddo peth o'r incwm hwnnw i elusen.

- Cyflog

blychau 1M.1 ac 1M.2 Nodwch yma'r swm gros (cyn tynnu Treth Incwm a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol) a dderbynioch yn y flwyddyn dreth a'r treth TWE a ddidynnwyd. Dangosir y ffigurau hyn ar eich P60 (neu P45 Rhan 1A os daeth eich swydd neu benodiad i ben yn y flwyddyn). Os gwnaethoch weithio allan eich TWE eich hun drwy ddefnyddio'r Casgliad Uniongyrchol neu'r weithdrefn Talu Uniongyrchol nodwch y swm a ddangosir am y flwyddyn ar eich rhan chi o'r ffurflen P14.

Os cawsoch gyfandaliad y mae'n rhaid i chi ei nodi ym mlychau 1M.43 i 1M.47 **a** chafodd y taliad ei gynnwys ar eich P45, gwnewch yn siwr eich bod yn didynnu swm llawn y taliad (cyn treth) o'r ffigur a roddwch ym mlwch 1M.2. Mewn achos o'r fath peidiwch â gwneud unrhyw addasiad i swm y dreth TWE a ddidynnwyd ac a gafodd ei roi ym mlwch 1M.1. Bydd y swm hwn yn parhau i fod yr un peth â'r ffigur a ddangosir ar eich P60 neu P45.

- Ffioedd

blwch 1M.3 Nodwch gyfanswm y ffioedd sy'n ddyledus i chi am wasanaethau (priodasau, angladdau ac amlosgiadau er enghraifft), pregethu neu weithgareddau eraill o'ch gweinidogaeth.

Os ydych wedi cynnwys ffioedd gyda'ch cyflog yn ffigur P60 a nodwyd gennych ym mlwch 1M.2, peidiwch â'u dangos eto ym mlwch 1M.3.

- Offrymau

blwch 1M.4 Unrhyw offrymau neu gasgliadau y gallwch eu cadw drwy hawl, traddodiad neu arferiad sy'n ffurfio rhan o'ch incwm trethadwy. Rhowch y cyfanswm ar gyfer y flwyddyn.

- Rhoddion a grantiau

blychau 1M.5 ac 1M.6 Nodwch ym mlwch 1M.6 gyfanswm unrhyw roddion a grantiau a dderbyniwch yn rhinwedd eich swydd fel gweinidog sy'n cynyddu eich incwm. Peidiwch â chynnwys rhoddion personol fel anrhegion penblwydd nas cysylltir â'ch gweinidogaeth neu roddion a grantiau cyfandaliadau a wnaed i chi er mwyn lleddfu caledi sy'n neilltuol i'ch amgylchiadau personol chi eich hun. Mae grantiau a roddir i glerigwyr yn gyffredinol, yn hytrach na thrwy gyfeirio at eich amgylchiadau personol arbennig chi eich hun, yn drethadwy a dylid eu cynnwys yma. Os ydych yn ansicr a yw grant yn drethadwy cysylltwch â'ch Swyddfa Cyllid y Wlad neu'ch cynghorydd treth.

Nodwch unrhyw dreth a ddidynnwyd ym mlwch 1M.5.

Os gwneir rhodd drethadwy mewn da (er enghraifft, rhodd o gar modur), bydd y gwerth trethadwy yn dibynnu ar p'un a oedd eich enillion ar gyfradd o £8,500 y flwyddyn neu fwy ai peidio (gweler 'Buddiannau a thaliadau treuliau a dderbyniwyd' ar dudalen MN3). Os oeddent, gall y gwerth trethadwy ddibynnu ar natur yr ased ac a ddefnyddiwyd ef neu a ddibrisiodd cyn iddo gael ei roi i chi. Gweler *Llyfryn 480: Treuliau a Buddiannau - Canllaw Treth*, sydd ar gael o'r Llinell Archebu, neu gofynnwch i'ch Swyddfa Cyllid y Wlad neu'ch cynghorydd treth am gyngor. Os oedd eich enillion (gan gynnwys y rhodd) ar gyfradd o lai na £8,500 y flwyddyn, y gwerth trethadwy yw'r hyn y gallech werthu'r rhodd amdano, hynny yw, ei gwerth yn ail law. Dylai'r gwerth hwn gael ei ddefnyddio p'un a ydych mewn gwirionedd yn ei gwerthu ai peidio.

- Treuliau personol, a threuliau'r ficerdy neu'r mans, a dalwyd ar eich rhan

blwch 1M.7 Nodwch gyfanswm unrhyw filiau neu dreuliau personol (er enghraifft os yw Cyngor yr Eglwys yn talu bil atgyweirio ar gyfer eich car) ac unrhyw filiau ar gyfer goleuo, gwresogi a chynnal a chadw eich ficerdy neu eich mans rydych yn gyfrifol amdanynt, ac a dalwyd ar eich rhan. Efallai y gallwch wneud cais am ddidyniad ar gyfer rhai o'r symiau hyn. Gweler y nodiadau ar flychau 1M.24 i 1M.32 ar dudalennau MN5 ac MN6.

Os ydych yn weinidog llawn amser ac os bydd corfforaeth eglwys neu elusen yn darparu llety i chi fyw ynddo lle rydych yn cyflawni dyletswyddau eich gweinidogaeth ohono, yna ni fydd rhai symiau a delir ar eich rhan neu a ad-dalwyd i chi yn drethadwy. Y rhain yw Treth Gyngor, trethi cyffredinol (Gogledd Iwerddon), a threthi dŵr. Peidiwch â'u cynnwys yn eich incwm trethadwy.

Os oedd eich enillion o'ch swydd neu benodiad (yn cynnwys buddiannau a threuliau) ar gyfradd llai na £8,500 y flwyddyn ni fydd rhai o dreuliau'r ficerdy yn drethadwy. Gweler y nodyn ar flwch 1M.23 ar dudalen MN4 am fwy o wybodaeth, ond mae'n rhaid i chi, beth bynnag, roi manylion y treuliau ym mlwch 1M.7.

- Llety, talebau a chardiau credyd

blwch 1M.8 Os cewch lety lle rydych yn cyflawni eich gweinidogaeth ohono bydd gwerth eich deiliadaeth breifat o'r llety fel arfer yn ddidreth. Fodd bynnag, os yw eich swydd yn un weinyddol yn hytrach na bugeiliol bydd gwerth y llety a ddarperir i chi yn drethadwy. Efallai bod eich eglwys wedi rhoi ffigur i chi ar gyfer hyn. Gofynnwch i'r Llinell Archebu am *Daflen Gymorth 1R202: Living Accommodation* os hoffech gadarnhau hyn neu weithio'r ffigur allan eich hun.

Mae eich incwm, gyda rhai eithriadau, yn cynnwys gwerth unrhyw dalebau a gwerth nwyddau neu wasanaethau a geir gyda cherdyn credyd neu docyn a ddarperir i chi oherwydd eich swydd neu benodiad. Os bydd angen mwy o wybodaeth arnoch fel y gallwch gadarnhau ffigurau a roddir i chi gan eich eglwys, neu er mwyn i chi eu gweithio allan eich hunan, gofynnwch i'r Llinell Archebu am *Daflen Gymorth IR201: Vouchers, credit cards and tokens.* Os defnyddiwyd y talebau neu'r cerdyn credyd gennych i dalu treuliau eich swydd yna dylech gynnwys y gwerth cyn unrhyw ddidyniadau ym mlwch 1M.8 a gwnewch gais am ddidyniad ar gyfer unrhyw dreuliau caniataol ym mlychau 1M.24 i 1M.32 - gweler y Nodiadau sy'n dechrau ar dudalen MN5.

- Treuliau a dalgrynnwyd a lwfansau rhent

blychau 1M.9 ac 1M.10 Nodwch gyfanswm unrhyw lwfansau a dalgrynnwyd a dalwyd i chi, ac unrhyw dreth y DG a ddidynnwyd oni bai y cânt eu cynnwys yn y ffigurau ar eich P60. Hefyd dylech gynnwys unrhyw lwfans a dalwyd i chi i'ch helpu i dalu'r rhent neu'r morgais. Efallai y gallech wneud cais am ddidyniad ar gyfer y treuliau a dalwch o lwfans wedi'i dalgrynnu neu am ran o unrhyw rent a dalwch. Gwnewch hyn ym mlychau 1M.24 i 1M.32 - gweler y Nodiadau sy'n dechrau ar dudalen MN5.

- Lwfansau milltiroedd - eich cludiant eich hun

blwch 1M.11 Os telir lwfans i chi am ddefnyddio eich car, eich beic modur neu eich beic eich hun ar gyfer teithiau busnes, gall y swm a dderbyniwch fod yn fwy na swm y rhyddhad treth y gallwch wneud cais amdano. Mae'r swm ychwanegol yn elw trethadwy - nodwch hwn ym mlwch 1M.11. Os bydd y swm a dderbyniwch yn llai na swm y rhyddhad treth, gellir cynnwys y swm ychwanegol ym mlwch 1M.26. Ceir gwybodaeth ar sut i gyfrifo'r rhyddhad treth y gallwch ei osod yn erbyn y lwfans milltiroedd yn y Nodiadau ar flwch 1M.26 ar dudalen MN5.

Os ydych yn defnyddio eich car eich hun efallai bod gan eich eglwys gytundeb gyda Swyddfa Cyllid y Wlad a elwir yn Gynllun Elw Penodedig Car. Os felly, gall eich eglwys roi naill ai:

- manylion yr elw am ddefnyddio eich car eich hun i'w nodi ym mlwch 1M.11i chi, **neu**
- manylion cyfanswm y lwfansau milltiroedd a dalwyd i chi yn ystod y flwyddyn yn ogystal â nifer y milltiroedd a wnaed y taliadau ar eu cyfer.

Ceir fwy o fanylion am y cynlluniau hyn, ac ar gyfer treuliau moduro yn y daflen *IR125: Defnyddio eich car eich hun ar gwaith*, sydd ar gael o'r Llinell Archebu.

- Incwm arall o'ch swydd neu'ch penodiad

blychau 1M.12 ac 1M.13 Nodwch ym mlychau 1M.12 ac 1M.13 swm unrhyw incwm arall a gewch (a threth y DG ar yr incwm hwnnw) o'ch swydd neu benodiad. Os ydych yn dal caplaniaeth am ei bod yn rhan o'ch swydd drwy hawl, traddodiad neu arferiad yna dylech gynnwys yr incwm ohono yma. Fodd bynnag, dylai incwm o gaplaniaethau sydd ar wahân i'ch prif benodiad gael ei gynnwys ym mlychau 1M.35 ac 1M.36.

Taliadau mantoli

Os ydych wedi gwaredu ased rydych wedi gwneud cais am lwfansau cyfalaf amdano, cofiwch gynnwys unrhyw dâl mantoli ym mlwch 1M.13. Os bydd angen cymorth arnoch, gofynnwch i'r Llinell Archebu am *Daflen Gymorth IR206: Capital allowances for employees and office holders*, neu, os oedd y car yn ased, taflen *IR125: Defnyddio eich car eich hun ar gyfer gwaith*.

blwch 1M.14 Adiwch y ffigurau ym mlychau 1M.1, 1M.5, 1M.9 ac 1M.12 a nodwch y canlyniad ym mlwch 1M.14.

blwch 1M.15 Adiwch y ffigurau ym mlychau 1M.2, 1M.3, 1M.4, 1M.6, 1M.7, 1M.8, 1M.10, 1M.11 ac 1M.13 a nodwch y canlyniad ym mlwch 1M.15.

Buddiannau a thaliadau treuliau a dderbyniwyd

Nodwch ym mlychau 1M.16 i 1M.21 unrhyw fuddiannau (a thaliadau treuliau) a ddarparwyd i chi neu i aelodau o'ch teulu neu'ch cartref.

Byddwch ond yn talu treth ar y rhain os oedd eich enillion* o'ch swydd neu benodiad ar gyfradd o £8,500 y flwyddyn neu fwy. Peidiwch â nodi ym mlychau 1M.16 i 1M.21 unrhyw symiau rydych eisoes wedi eu nodi rywle arall.

Os yw eich eglwys yn rhoi buddiannau neu daliadau treuliau trethadwy i chi, dylent fod wedi anfon manylion am y rhain i Gyllid y Wlad. Darperir y manylion ar y P11D neu ddogfen gyfatebol. Bydd eich eglwys naill ai'n rhoi copi o'r ddogfen i chi neu yn dweud wrthych beth a ddangosir arni.

Ni fydd y manylion a gewch yn cynnwys unrhyw eitemau lle mae gan eich eglwys oddefeb ac nid oes angen i chi gynnwys yr eitemau hyn ar eich Ffurflen Dreth. (Mae goddefeb yn drefniant y bydd eich eglwys wedi ei wneud efallai gyda Chyllid y Wlad. Mae'n eich arbed rhag cynnwys buddiant neu daliad treuliau a dderbyniwyd fel incwm ac yna wneud cais cyfatebol am dreuliau caniatáol rydych yn eu gwario.)

Gelwir swm trethadwy o fuddiant yn 'gyfwerth arian'. Mae mwy o wybodaeth fanwl am hyn, y trothwy o £8,500 ac ystyr 'teulu neu gartref teuluol' yn *Llyfryn 480: Treuliau a Buddiannau – Canllaw Treth*, sydd ar gael o'r Llinell Archebu. Mae'r llyfryn hwn hefyd yn cynnwys arweiniad pellach ar fuddiannau a threuliau.

* Gan gynnwys buddiannau a thaliadau treuliau a dderbyniwyd ac ar ôl gwneud unrhyw addasiad i fuddiannau gwasanaethau llety ar *Daflen Gymorth IR214: Service benefits connected with job-related living accommodation* ond cyn didynnu treuliau caniatáol.

- Buddiannau car a thanwydd car

blychau 1M.16 ac 1M.17 Rhowch gyfwerth arian y ceir sydd ar gael at eich defnydd preifat (neu i aelodau o'ch teulu neu gartref) ym mlwch 1M.16. Dylai eich eglwys (neu pwy bynnag a ddarparodd y car) roi ffigur i chi.

Mae'n rhaid i chi hefyd dalu treth ar fuddiant y tanwydd a ddarparwyd ar gyfer teithio preifat mewn car oedd ar gael i chi. Bydd eich eglwys (neu pwy bynnag a ddarparodd y tanwydd) yn rhoi ffigur i chi am gost y tanwydd. Nodwch hyn ym mlwch 1M.17.

Gofynnwch i'r Llinell Archebu am *Daflen Gymorth IR203: Car benefits and car fuel benefits* os ydych am gadarnhau unrhyw un o'r ffigurau neu weithio allan y cyfwerth arian eich hun.

Os defnyddiwch eich car eich hun ar gyfer teithio wrth gyflawni eich dyletswyddau gweler y nodiadau ar flychau 1M.11 ac 1M.26. Os cawsoch gar i chi eich hun, gweler hefyd y nodiadau ar flwch 1M.6.

- Gwasanaethau a buddiannau'r ficerdy neu'r mans

blwch 1M.18 Nodwch ym mlwch 1M.18 unrhyw wasanaethau neu fuddiannau eraill a ddarparwyd mewn cysylltiad â ficerdy, mans neu eiddo arall a feddiannir gennych.Peidiwch â chynnwys unrhyw symiau a nodwyd gennych ym mlwch 1M.7 (gan mai'ch cyfrifoldeb chi oedd y rhain). Enghreifftiau o'r hyn y dylech ei gynnwys yma yw:

- biliau gwresogi, goleuo a glanhau a chostau atgyweirio, cynnal a chadw ac addurno'r eiddo (yn cynnwys yr ardd) y mae'r eglwys yn gyfrifol amdanynt**. Y cyfwerth arian yw swm y bil neu'r gost. Fodd bynnag, dylech eithrio atgyweiriadau adeiladu ac addurno y tu allan i'r eiddo, ac unrhyw atgyweiriadau i'r gosodiadau a'r ffitiadau y byddai'r landlord yn gyfrifol amdanynt petai'r eiddo ar osod i chi ar brydles atgyweirio tenant. Os bydd angen unrhyw help arnoch, gofynnwch i'ch Swyddfa Cyllid y Wlad neu'ch cynghorydd treth.
- dodrefn, deunyddiau dodrefn, carpedi sydd wedi ei gosod ac eiddo domestig arferol arall a ddarperir at eich defnydd**. Seilir cyfwerth arian y rhain fel arfer ar 20% o'u gwerth pan gawsant eu darparu'n gyntaf fel buddiant.
- gwasanaethau domestig (heblaw glanhau). Y cyfwerth arian yw cost darparu'r rhain.

Os defnyddiwch eiddo yn rhannol ar gyfer cyflawni eich dyletswyddau, rhannwch gost unrhyw swm sy'n berthnasol i hwnnw ac i unrhyw rannau eraill o'r eiddo a pheidiwch â chynnwys y rhan sy'n berthnasol i'r rhan a ddefnyddir ar gyfer eich dyletswyddau. Fodd bynnag, os gwnewch hyn ni allwch wneud cais am ddidyniad am dreuliau (blwch 1M.25) ar gyfer y swm a eithriwyd.

- Benthyciadau di-log a llog isel

blwch 1M.19 Nodwch ym mlwch 1M.19 gyfwerth arian unrhyw fenthyciad di-log neu log isel. Dylai eich eglwys (neu pwy bynnag a roddodd y benthyciad i chi) fod wedi rhoi ffigur i chi am hyn. Am fwy o wybodaeth am drethu benthyciadau di-log a llog isel yn gyffredinol, gofynnwch i'r Llinell Archebu am daflen *IR145:Low-interest loans provided by employers*.

** Os cewch lety sydd wedi'i eithrio o dreth (gweler y nodyn ar flwch 1M.8 ar dudalen MN2), cyfyngir y swm trethadwy ar yr eitemau hyn i uchafswm o 10% o'ch enillion net (yn cynnwys buddiannau a threuliau). Os credwch fod hyn yn gymwys i chi gofynnwch i'r Llinell Archebu am *Daflen Gymorth IR214: Service benefits connected with job-related living accommodation.*

• Buddiannau eraill

blwch 1M.20 Nodwch ym mlwch 1M.20 gyfwerth arian unrhyw fuddiannau eraill a dderbynioch nas cwmpesir rywle arall yn y Tudalennau Gweinidogion yr Efengyl. Os bydd eich eglwys, neu ryw gorff arall, wedi gwneud taliadau i chi i gynllun budd-daliadau ymddeol nas cymeradwywyd, neu os byddwch wedi derbyn taliadau gan gynllun budd-dâl ymddeol nas cymeradwywyd, peidiwch â chynnwys y rhain ym mlwch 1M.20. Gweler y nodiadau ar flychau 1M.43 i 1M.46. Pennir cyfwerthoedd arian mewn ffyrdd gwahanol, yn ôl y math o fuddiant.

Cyfwerth arian yswiriant meddygol neu ddeintyddol preifat ac ati yn gyffredinol yw faint gostiodd y buddiant i'r person a'i ddarparodd *minws* unrhyw swm a ad-dalwyd i'r person hwnnw. Os yw'r gost yn cynrychioli buddiannau ar gyfer mwy nag un gweinidog neu gyflogai, bydd y cyfwerth arian ar gyfer pob un yn seiliedig ar gyfran gywir o'r swm cyfan.

Os cawsoch fan, gofynnwch i'r Llinell Archebu am daflen *IR136: Income tax and company vans - a guide for employees and employers.*

Os cafodd ased ei drosglwyddo i chi, neu os darparwyd ased arall ac eithrio tir i chi at ddefnydd preifat (ar wahân i unrhyw beth yn y nodyn ar flwch 1M.18) gweler llyfryn 480: *Treuliau a Buddiannau - Canllaw Treth* sydd ar gael o'r Llinell Archebu.

Ar gyfer buddiannau eraill, y cyfwerth arian fel arfer fydd yr hyn a gostiodd y budd i'r person a'i ddarparodd *minws* unrhyw swm a ad-dalwyd i'r person hwnnw. Os yw'r swm hwnnw yn cynrychioli buddiannau a ddarparwyd ar gyfer mwy nag un gweinidog neu gyflogai bydd y cyfwerth ariannol ar gyfer pob un yn seiliedig ar gyfran gywir o'r swm cyfan. Rhestrir rhai o'r buddiannau mwyaf cyffredin yn Nhaflen Gwaith 1 isod. Defnyddiwch hon i'ch helpu i bennu cyfanswm ar gyfer blwch 1M.20.

Taflen Waith 1 - buddiannau eraill

Asedion a drosglwyddwyd	£
Asedion a ddarparwyd i'w defnyddio	£
Ffôn(au)	£
Tanysgrifiadau	£
Nwyddau neu wasanaethau a ddarparwyd	£
Lleoedd meithrinfa a ddarparwyd (gweler llyfryn 480)	£
Cymorth addysgiadol a ddarparwyd (gweler llyfryn 480)	£
Lwfansau adleoli (gweler y nodyn isod)	£
Pob buddiant arall (gan gynnwys bwyd)	£
Cyfanswm	A £

Copïwch y ffigur ym mlwch A i flwch 1M.20

Pecynnau adleoli

Bydd unrhyw daliadau a dderbyniwch, neu unrhyw nwyddau neu wasanaethau a ddarperir i chi gan eich eglwys neu gorff cynrychioliadol pan fyddwch yn symud tŷ yn rhan o'ch enillion trethadwy. Fodd bynnag, os byddwch yn symud tŷ at ddibenion swydd ac yn bodloni rhai amodau arbennig, bydd y £8,000 cyntaf o unrhyw gymorth wedi'i eithrio o dreth.

Wrth gwblhau'r Tudalennau hyn cofiwch:

- mae'r terfyn £8,000 yn gymwys i'r symud yn ei grynswth ac nid yn derfyn ar gyfer pob blwyddyn dreth **a**
- mae gofyn i'ch eglwys ddweud wrth Gyllid y Wlad am unrhyw swm ychwanegol o unrhyw gostau a buddiannau adleoli dros y terfyn £8,000.

Dylai eich eglwys roi eich manylion am y swm i'w gynnwys ym mlwch 1M.20. Mae mwy o wybodaeth fanwl am becynnau adleoli yn nhaflen *IR134: Income Tax and relocation packages*, sydd ar gael o'r Llinell Archebu.

• Taliadau treuliau a wnaed i chi

blwch 1M.21 Nodwch gyfanswm y taliadau neu'r ad-daliadau a wnaed i chi ac eithrio'r symiau rydych eisoes wedi'u cynnwys ym mlwch 1M.7 neu flwch 1M.10. Peidiwch â chynnwys symiau y mae gan yr eglwys oddefeb amdanynt. Os hoffech fwy o wybodaeth am daliadau treuliau gofynnwch i'r Llinell Archebu am Lyfryn 480: *Treuliau a Buddiannau - Canllaw Treth*.

■ *Incwm trethadwy, buddiannau a threuliau*

blwch 1M.22 Adiwch y ffigurau ym mlychau 1M.16 i 1M21 at ei gilydd.

blwch 1M.23 Nodwch ym mlwch 1M.23 swm eich incwm trethadwy a'ch buddiannau fel gweinidog yr efengyl. Mae swm y ffigur hwn yn dibynnu ar p'un a oedd cyfanswm eich incwm, buddiannau a threuliau o'ch swydd neu'ch penodiad ar y gyfradd £8,500 (neu fwy) y flwyddyn, neu yn llai na £8,500.

Os oedd incwm, buddiannau a chostau eich swydd ar gyfradd o £8,500 neu fwy, nodwch ym mlwch 1M.23 gyfanswm blychau 1M.15 ac 1M.22.

Os oeddech o dan y trothwy £8,500 gallwch drwy gonsesiwn eithrio rhai symiau penodol o'ch incwm trethadwy a dalwyd ar eich rhan (neu a ad-dalwyd i chi) mewn cysylltiad â ficerdy neu fans a ddarparwyd i chi gan elusen neu gorfforaeth eglwysig. Er mwyn gwneud hyn, cwblhewch Daflen Waith 2 gan nodi'r symiau rydych wedi eu cynnwys ym mlwch 1M.7 ar gyfer yr eitemau a ddangosir yn y Daflen Waith. Yna tynnwch y cyfanswm ym mlwch B o'r ffigur ym mlwch 1M.15 a nodwch y canlyniad ym mlwch 1M.23.

Taflen Waith 2 - eitemau a eithriwyd buddiannau eraill

Cyfansymiau a dalwyd i chi neu a ad-dalwyd i chi

• Gwres a golau	£
• Glanhau	£
• Garddio	£
Cyfanswm	B £

Treuliau a dalwyd fel gweinidog yr efengyl

Mae'r nodiadau hyn yn dweud wrthych am dreuliau y gallwch eu didynnu wrth weithio allan yr incwm trethadwy o'ch swydd neu benodiad fel gweinidog. Dim ond costau a dalwyd gennych o incwm (yn cynnwys buddiannau a thaliadau treuliau) eich swydd neu benodiad y gallwch eu didynnu. **Os na fydd y buddiannau a'r taliadau treuliau a dderbyniwch yn drethadwy am eich bod o dan y trothwy o £8,500 yna ni ddylech wneud cais am ddidyniad ar gyfer treuliau a dalwyd gennych o symiau didreth o'r fath.**

- Rhent

blwch 1M.24 Os ydych yn rhentu tŷ a defnyddir rhan ohono yn bennaf ar gyfer eich dyletswyddau fel gweinidog, gallwch ddidynnu rhan briodol (dim mwy na chwarter) o'r rhent a dalwch.

- Gwaith cynnal a chadw, atgyweiriadau ac yswirio'r ficerdy, mans ac ati.

blwch 1M.25 Os ydych yn weinidog llawn amser ac mae corfforaeth eglwysig neu elusen yn rhoi llety i chi lle rydych yn byw ac yn cyflawni dyletswyddau eich gweinidogaeth ohono, yna gallwch ddidynnu un chwarter o'r costau a dalwyd gennych wrth gynnal a chadw, atgyweirio neu yswirio'r eiddo.

Mae'r nodiadau ar flwch 1M.32 yn dweud wrthych pryd y gallwch wneud cais am ddidyniad mewn amgylchiadau eraill, er enghraifft os ydych yn gweithio rhan amser neu'n cyflawni eich dyletswyddau o dŷ rydych yn berchen arno. Os ydych hefyd yn gwneud cais am ddidyniad ar gyfer gwaith cynnal a chadw, atgyweiriadau ac yn y blaen ym mlwch 1M.32, mae'n rhaid i chi gyfyngu'r un chwarter y gwneir cais amdano ym mlwch 1M.25 gan y swm y gwneir cais amdano ym mlwch 1.32. Gofynnwch i'ch Swyddfa Cyllid y Wlad neu'ch cynghorydd treth os bydd angen help arnoch gyda hyn.

- Costau teithio a lwfansau cyfalaf

blwch 1M.26 Gallwch ddidynnu costau teithio yr oedd yn rhaid i chi eu talu wrth wneud eich swydd neu a dalwyd gennych wrth deithio i weithle dros dro yr oedd yn rhaid i chi fynychu er mwyn cyflawni eich dyletswyddau.

Os ydych yn talu treuliau teithiau busnes pan fyddwch yn defnyddio eich car, eich beic modur neu eich beic eich hun, ac os yw eich eglwys yn talu lwfans i chi, gweler y nodyn ar flwch 1M.11 ar dudalen MN2.

Os ydych yn talu treuliau teithiau busnes pan fyddwch yn defnyddio eich car, eich beic modur neu eich beic eich hun, ac os nad yw eich eglwys yn talu lwfans i chi, gallwch wneud cais am ddidyniad ar gyfer y treuliau teithio caniatáol. Mae dwy ffordd o gyfrifo'r rhyddhad treth

- yr sail union, neu
- y sail symlach.

Costau teithio - y sail union

Y treuliau teithio caniatáol yw cost y tanwydd a ddefnyddir ar deithiau busnes yn ogystal â chyfran fusnes costau eraill fel gwaith cynnal a chadw, atgyweirio ac amnewid rhannau, yswiriant a threth cerbyd (treth ffordd). Cyfrifir y gyfran fusnes drwy gyfeirio at y milltiroedd busnes a chyfanswm y milltiroedd a deithiwyd yn y cerbyd hwnnw yn ystod y flwyddyn.

Bydd angen i chi gadw cofnodion o'ch holl dreuliau teithio i ategu'r cais hwn. Bydd angen i chi hefyd gadw manylion o'ch milltiroedd busnes a phreifat yn y cerbyd yn ystod y flwyddyn.

Byddwch hefyd yn gallu gwneud cais am lwfansau cyfalaf. Os byddwch am gyfrifo eich treuliau teithio caniatáol a'ch lwfansau cyfalaf ar gyfer eich car, gofynnwch i'r Llinell Archebu am daflen *IR125: Defnyddio eich car eich hun ar gyfer gwaith*. Os ydych am weithio allan eich lwfansau cyfalaf ar gyfer eich beic modur neu eich beic eich hun, gofynnwch i'r Llinell Archebu am *Daflen Gymorth IR206 Capital Allowances for employees and office holders.*

Treuliau teithio - y sail symlach

Os yw'n well gennych, gallwch gyfrifo eich treuliau teithio caniatáol drwy ddefnyddio'r sail symlach. Ni allwch wneud cais am lwfansau cyfalaf os defnyddiwch y dull hwn. Mae hyn oherwydd bod y ffigurau yn y tabl eisoes yn cynnwys elfen ar gyfer dibrisiant cyfalaf.

Os dewiswch y dull hwn, dim ond cofnod o gyfanswm y milltiroedd busnes yn y car yn ystod y flwyddyn y bydd angen i chi ei gadw, a nodyn o faint injan y car.

Gallwch ddefnyddio'r ffigurau canlynol.

Car

Maint injan y car	**Hyd at 4,000 o filltiroedd busnes (ceiniog y filltir)**	**Dros 4,000 o filltiroedd busnes (ceiniog y filltir)**
Hyd at 1,000cc	28	17
1,001 - 1,500cc	35	20
1,501 - 2,000cc	45	25
Dros 2,000cc	63	36

Enghraifft
Teithioch 6,000 o filltiroedd busnes. Mae injan 1,600cc yn eich car. Mae eich costau caniatáol fel a ganlyn:-

4,000 o filltiroedd ar 45 ceiniog	£1,800
2,000 o filltiroedd ar 25 ceiniog	£500
Cyfanswm	£2,300

Beic modur
24 ceiniog y filltir, waeth beth fo maint injan y beic modur neu'r pellter a deithiwyd.

Beic
12 ceiniog y filltir, waeth beth fo'r pellter a deithiwyd.

Pan fyddwch wedi nodi'r treuliau yr hoffech wneud cais amdanynt

Adiwch at ei gilydd:

- yr holl gostau teithio caniatáol a dalwyd gennych. Os ydych wedi derbyn lwfans milltiroedd cofiwch gynnwys dim ond swm unrhyw gostau caniatáol sy'n ychwanegol at eich lwfansau - gofynnwch i'r Llinell Archebu am Daflen Gymorth *IR125 Defnyddio eich car eich hun ar gyfer gwaith*, sy'n cynnwys taflen waith i weithio allan y swm ychwanegol ar gyfer car
- costau'r llety/prydau bwyd yn ystod y teithiau busnes
- y costau busnes eraill sy'n berthnasol i deithiau busnes. Byddai'r rhain yn cynnwys er enghraifft galwadau ffôn busnes a chostau ffacs/ llungopïo ac ati. Ond nid ydynt yn cynnwys eitemau personol fel cost galwadau ffôn adref, papurau dyddiol a golchi dillad personol.

Yna nodwch y cyfanswm ym mlwch 1M.26.

Fel gyda phob cais am dreuliau, dylech gadw unrhyw gofnod o'r symiau a dalwyd ac unrhyw dderbynebion/talebau sydd gennych rhag ofn y bydd eich Swyddfa Cyllid y Wlad yn gofyn amdanynt. Peidiwch â'u hanfon gyda'ch Ffurflen Dreth.

Lwfansau cyfalaf

Ni allwch wneud cais am lwfansau cyfalaf am gar, beic modur neu feic os ydych yn derbyn lwfans milltiroedd a chafodd unrhyw elw ei drin yn y ffordd a ddisgrifiwyd yn y nodiadau ar flwch 1M.11, neu rydych wedi cyfrifo eich treuliau moduro neu feicio caniatáol drwy ddefnyddio'r sail symlach a nodwyd uchod. Mae hyn oherwydd bod y ffigurau a ddefnyddir yn y dulliau hyn eisoes yn cynnwys swm ar gyfer dibrisiant.

Os yw dyletswyddau eich gweinidogaeth yn galw am ddefnyddio offer (fel cyfrifiadur neu beiriant reprograffig neu gyfeirlyfrau diwynyddiaeth) ac mae'n rhaid i chi dalu am y rhain eich hunan, gallwch wneud cais am lwfans cyfalaf. Gofynnwch i'r Llinell Archebu am *Daflen Gymorth IR206: Capital allowances for employees and office holders*, sy'n cynnwys rhai enghreifftiau sy'n dangos i chi sut i gyfrifo'r lwfans.

- Llyfrau

blwch 1M.27 Gallwch ddidynnu cost llyfrau rydych wedi eu prynu i'w defnyddio mewn oedfaon neu a ddefnyddir yn uniongyrchol wrth baratoi pregethau. Nid oes unrhyw ddidyniad ar gael ar gyfer llyfrau neu gyfnodolion a ddefnyddiwch ar gyfer darllen cefndir cyffredinol. Fodd bynnag, gallwch wneud cais am lwfansau cyfalaf ar gyfeirlyfrau diwynyddol sylweddol. Gweler y nodiadau ar flwch 1M.26.

- Defnyddiau swyddfa, post a ffôn

blwch 1M.28 Didynnwch gost nwyddau papur, post a rhan briodol o gostau ffôn a dalwyd gennych wrth gyflawni eich dyletswyddau.

- Gwisgoedd a chostau oedfaon

blwch 1M.29 Gallwch ddidynnu costau atgyweirio neu ddisodli gwisgoedd a wisgir yn ystod oedfaon yn unol â Chyfraith yr Eglwys neu yn ôl arferiad eglwys benodol. Ni allwch wneud cais am gost dillad bob dydd a wisgir ar achlysuron eraill. Os talwyd am eitemau gennych a ddefnyddiwyd mewn oedfaon, yna dangoswch y swm a wariwyd gennych yma.

- Costau ysgrifenyddol

blwch 1M.30 Gallwch ddidynnu cost cymorth ysgrifenyddol, pan fydd hyn o anghenraid yn codi wrth gyflawni dyletswyddau eich gweinidogaeth. Ni allwch ddidynnu symiau a dalwyd i'ch partner am eu gwaith fel aelod gweithgar o'r eglwys, er enghraifft fel arweinydd grŵp merched, neu ar gyfer gwaith tŷ.

- Terfyn uchaf buddiannau gwasanaeth

blwch 1M.31 Os ydych dros y terfyn £8,500 (gweler 'Buddiannau a thaliadau treuliau a dderbyniwyd' ar dudalen MN3) ac os yw'r buddiannau gwasanaeth fel gwres, golau, atgyweiriadau ac ati a gysylltir â'r llety a ddarperir i chi yn fwy na 10% o incwm eich swydd, gofynnwch am *Daflen Gymorth IR214: Service benefits connected with job-related living accommodation*. Bydd hyn yn dweud wrthych sut i gyfrifo'r gostyngiad, os o gwbl, i swm eich buddiannau trethadwy.

- Costau eraill

blwch 1M.32 Os defnyddir rhan o'r eiddo lle rydych yn byw ar gyfer cyflawni dyletswyddau eich gweinidogaeth, er enghraifft os defnyddiwch ystafell ar gyfer busnes yr eglwys, yna gallwch ddidynnu rhan o gost goleuo, gwresogi, glanhau, cynnal a chadw, ac ati, yr eiddo sy'n gymesur â rhan o'r eiddo a ddefnyddir felly. Gwnewch yn siwr bod unrhyw ran o gost atgyweirio, cynnal a chadw, ac ati, y gwneir cais amdani yma yn cael ei heithrio o unrhyw gais a wnewch ym mlwch 1M.25.

Os oedd angen i chi benodi rhywun i gyflawni dyletswyddau eich swydd dros dro yna gallwch wneud cais am ddidyniad ar gyfer y gost.

Os ydych yn ystod eich dyletswyddau wedi difyrru clerigwyr, swyddogion yr eglwys neu aelodau o'r eglwys sydd ar ymweliad ar achlysuron swyddogol, gallwch ddidynnu cost darparu adloniant rhesymol ar eu cyfer. Ni chaniateir darparu adloniant ar achlysuron anffurfiol neu gynulliadau cymdeithasol.

Efallai y bydd hawl gennych hefyd i ddidyniad ar gyfer tanysgrifiadau blynyddol i gyrff proffesiynol a gymeradwyir gan Gyllid y Wlad ac sy'n berthnasol i'ch gwaith. Os oes hawl gennych i ddidyniad, gall y corff proffesiynol rydych yn talu'r tanysgrifiad iddo ddweud wrthych faint y gellir ei ddidynnu.

Cwmpaswyd y rhan fwyaf o'r costau y gallwch wneud cais amdanynt yn y nodiadau hyn. Efallai y gallech wneud cais am gostau eraill a dalwyd gennych o anghenraid wrth gyflawni dyletswyddau eich gweinidogaeth. Mae costau angenrheidiol yn cynnwys y rhai y byddai pob gweinidog yn eich swydd yn gorfod eu talu. Mae'n rhaid iddynt fod yn gostau na allwch wneud eich swydd heb eu talu ac mae'n rhaid eu talu wrth gyflawni dyletswyddau eich swydd yn wirioneddol. Efallai eich bod wedi cytuno â cheisiadau Cyllid y Wlad am eitemau eraill yn y gorffennol. Os felly dylech gyfrifo swm y costau goddefol ar y sail gytûn. Os ydych yn ansicr ynglŷn â'r hyn y gallwch wneud cais amdano dylech gysylltu â'ch Swyddfa Cyllid y Wlad neu'ch cynghorydd treth am gymorth.

blwch 1M.33 Adiwch y ffigurau ym mlychau 1M.24 i 1M32 at ei gilydd a rhowch y canlyniad ym mlwch 1M.33.

blwch 1M.34 Nodwch ym mlwch 1M.34 y ffigur ym mlwch 1M.23 *minws* y ffigur ym mlwch 1M.33.

Incwm arall fel gweinidog yr efengyl

Incwm caplaniaeth

blychau 1M.35 ac 1M.36 Nodwch ym mlychau 1M.35 ac 1M.36 fanylion unrhyw incwm caplaniaeth sydd ar wahân i'ch prif benodiad. Peidiwch â chynnwys incwm caplaniaeth a roddoch ym mlwch 1M.13.

Unrhyw incwm arall fel gweinidog

blychau 1M.37 ac 1M.38 Os derbyniwch unrhyw incwm achlysurol fel gweinidog na ddangosir rywle arall ar y Tudalennau Gweinidogion yr Efengyl, nodwch yr incwm ym mlwch 1M.38 ac unrhyw dreth a ddidynnwyd ym mlwch 1M.37.

Pensiwn clerigwyr

blychau 1M.39 ac 1M.40 Dylech gynnwys unrhyw bensiwn a dderbyniwyd o dan Fesur Pensiwn Clerigwyr ym mlwch 1M.40 a dangoswch unrhyw dreth a ddidynnwyd ym mlwch 1M.39.

Cyfandaliadau a thaliadau iawndal gan gynnwys taliadau o'r fath gan Eglwys y daliasoch swydd neu gyflogaeth ynddi yn flaenorol

blychau 1M.43 i 1M.46 Mae rheolau arbennig yn gymwys i fathau gwahanol o'r taliadau neu'r buddiannau hyn, felly mae'n bwysig defnyddio'r rheolau cywir.

Yn gyntaf, gadewch i ni edrych ar daliadau colli gwaith gan eich cyn gyflogwr neu gan Eglwys y daliasoch swydd ynddi. Os cawsoch un o'r taliadau hyn, y mae eich cyflogwr neu'r Eglwys yn caniatáu eithrio o dreth hyd at £30,000 yn eu herbyn, nodwch swm y taliad *minws* yr eithriad ym mlwch 1M.45. Er enghraifft, os oedd eich taliad colli gwaith yn £40,000, nodwch £10,000 ym mlwch 1M.45 (£40,000 *minws* yr uchafswm eithriad o £30,000).

Peidiwch ag anghofio cwblhau blwch 1M.46 (ond gadewch ef yn wag os byddwch eisoes wedi rhoi treth y DG a ddidynnwyd o'r taliad, os o gwbl, ym mlwch 1M.14).

Yn ail, **ar gyfer unrhyw amgylchiadau eraill bydd angen i chi gwblhau *Taflen Gymorth IR 204: Lump sums and compensation payments*,** sydd ar gael o'r Llinell Archebu, cyn **cwblhau'r blychau hyn. Yn arbennig, dylech gwblhau'r Daflen Gymorth**:

- os oedd yr hyn a gawsoch yn cynnwys eitemau megis ôl-gyflog, cyflog gwyliau, taliadau yn lle rhybudd, **neu**
- os oedd eitemau anariannol yn rhan o'r setliad, **neu**
- os yw'n golygu unrhyw eithriad heblaw'r eithriad cyffredinol o £30,000, **neu**
- os yw'n golygu iawndal heblaw ar gyfer colli gwaith, neu
- os gwneir taliadau neu fuddiannau pellach ar ôl 5 Ebrill 2001 o derfynu'r un swydd neu gyflogaeth, **neu**
- os ydych wedi derbyn symiau eraill wrth derfynu cyflogaeth neu swydd o'r un cyflogwr neu gyflogwr arall sy'n gysylltiedig â'r cyflogwr hwnnw ar unrhyw adeg, **neu**
- os cawsoch gyfandaliad gan gynllun budd-daliadau ymddeol nas cymeradwywyd, **neu**
- os cyfrannodd eich cyflogwr at gynllun budd-daliadau ymddeol nas cymeradwywyd.

Nodwch ym mlwch 1M.46 dreth y DG a ddidynnwyd o gyfandaliadau a thaliadau iawndal.

Enillion tramor a didyniad enillion tramor

blwch 1M.48

Enillion tramor

Efallai na fyddwch yn atebol i dalu Treth Incwm y DG yn y flwyddyn a ddaeth i ben 5 Ebrill 2000 ar eich holl incwm:

- os ydych wedi gwneud cais am driniaeth ddi-breswyl neu heb breswylfan ar gyfer y flwyddyn dreth 2000-2001, neu driniaeth blwyddyn ranedig ar gyfer y flwyddyn honno (os oeddech yn ddi-breswyl am ran o'r flwyddyn); **neu**
- os gwnaethoch gais o'r fath mewn blwyddyn flaenorol, a'ch bod wedi cynnwys incwm a enillwyd yn y flwyddyn honno yn y Tudalennau Gweinidogion yr Efengyl; **neu**
- os ydych wedi cynnwys incwm yn y Tudalennau Gweinidogion yr Efengyl sy'n berthnasol i flwyddyn ddiweddarach ac os credwch y byddwch yn gwneud cais am driniaeth ddi-breswyl am y flwyddyn ddiweddarach honno; **neu**
- os derbynioch incwm mewn gwlad dramor nad oeddech yn gallu dod ag ef gyda chi i'r DG oherwydd rheolau cyfnewid neu brinder arian tramor yn y wlad honno.

Er hynny, gall rhwymedigaeth godi mewn blynyddoedd cynharach neu ddiweddarach. Mae hefyd yn bosibl y gallech fod yn atebol i dreth incwm mewn gwlad arall.

Defnyddiwch y Daflen Waith yn *Nhaflen Gymorth IR211: Employment - residence and domicile issues* i weithio allan y rhan honno o'ch incwm a'ch derbynebion nad yw'n drethadwy a nodwch y swm hwn ym mlwch 1M.48 a gwnewch nodyn o'r hyn rydych wedi ei wneud yn y blwch 'Gwybodaeth Ychwanegol', blwch 1M.53 ar Dudalen M2.

Didyniad enillion tramor

Dilëwyd y Didyniad Enillion Tramor o 17 Mawrth 1998 ymlaen ar gyfer pob cyflogai heblaw morwyr. O'r dyddiad hwnnw dim ond morwyr sy'n gallu gwneud cais am y Didyniad. Diffinnir morwr fel 'rhywun sy'n cyflawni dyletswyddau eu cyflogaeth ar long'. Yr ystyr gyffredin sydd i 'long', fodd bynnag ni chaiff 'safleoedd alltraeth' a ddefnyddir yn y diwydiant olew a nwy alltraeth eu hystyried fel 'llongau'. Nid yw gweithwyr ar rigiau symudol yn 'forwyr' ac ni allant wneud cais am y Didyniad.

Os credwch fod hyn yn gymwys i chi, gofynnwch i'r Llinell Archebu am *Daflen Gymorth IR205 Foreign Earnings Deduction for Seafarers.*

Treth Dramor

blwch 1M.49 Os ydych wedi talu treth tramor ar incwm eich gweinidogaeth, efallai y gallech wneud cais am ryddhad credyd treth. Gofynnwch i'ch Swyddfa Cyllid y Wlad neu'ch cynghorydd treth am fanylion. Os ydych am wneud cais am ryddhad credyd treth, cwblhewch y Tudalennau Tramor sydd ar gael o'r Llinell Archebu a gadewch flwch 1M.49 yn wag.

Os na fyddwch am wneud cais am ryddhad credyd treth nodwch ym mlwch 1M.49 swm unrhyw dreth dramor a dalwyd gennych ar incwm y weinidogaeth a ddangosir ar y Tudalennau Gweinidogion yr Efengyl.

blwch 1M.50 Adiwch y ffigurau ym mlychau 1M.14, 1M.41, ac 1M.46 a nodwch y cyfanswm ym mlwch 1M.50.

blwch 1M.51 Adiwch y ffigurau yn mlychau 1M.34, 1M.42 ac 1M.47, tynnwch unrhyw ffigurau ym mlychau 1M.48 ac 1M.49 - a nodwch y canlyniad ym mlwch 1M.51.

Benthyciadau Myfyrwyr

Benthyciadau Myfyrwyr a ad-dalwyd trwy ddidyniad gan y cyflogwr

blwch 1M.52 Nodwch ym mlwch 1.39 swm unrhyw ad-daliad am Fenthyciad Myfyrwyr a ddidynnwyd gan eich cyflogwr ac a gynhwyswyd ar eich P60 neu slipiau cyflog. Ni fydd y P60 yn cynnwys Benthyciadau Myfyrwyr a ddidynwyd gan unrhyw gyflogwr blaenorol. Felly, os oedd gennych mwy nag un swydd neu benodiad yn ystod y flwyddyn, mae'n rhaid i chi ddefnyddio eich slipiau cyflog, yn ogystal â'ch P60, i gyfrifo'r ffigurau i'w nodi ym mlwch 1M.52 ar dudalennau Gweinidogion yr Efengyl.

Canllaw yn unig yw'r nodiadau hyn, sy'n adlewyrchu'r sefyllfa ar adeg ysgrifennu. Nid ydynt yn effeithio ar unrhyw hawl i apelio..